| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 HYDREF 2015** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –<br>THE VICTORIA-N-SLIPWAY, MARINE PARADE, TYWYN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar gyfer The Victoria-N-Slipway, Marine Parade, Tywyn oddi wrth Mr Mark Andrew Greaves ar ran y cwmni Victoria-N-Slipway Pub ar 17 Awst 2015. Gwelir copi o'r ffurflen gais a chynllun yr eiddo yn Atodiad 1.

Eglurwyd yr ymgeisydd fod hwn yn gais ar gyfer eiddo newydd fydd yn cynnwys lle bwyta dros ddau lawr ar gyfer 150 o bobl. Mae gan yr eiddo balconi allanol a gardd gwrw i'r ochr.

Gwelir crynodeb o'r gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig ac oriau agor yr eiddo yn hysbyseb y cais yn Atodiad 2.

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi eu rhestri yn adran M o'r ffurflen gais.

## SYLWADAU

| **Ymateb** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Dim ymateb |
| Heddlu Gogledd Cymru | Gwrthwynebiad – amodau CCTV |
| Gwasanaeth Tan & Achub | Cyfyngiad niferoedd o 140 |
| Partion eraill a diddordeb | 7 Gwrthwynebiad |

Gwelir copi o'r sylwadau yn Atodiad 3.

Yn dilyn trafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru, y mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau CCTV.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y 7 parti eraill a diddordeb yn gwrthwynebu'r cais. Mae eu gwrthwynebiadau yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Trosedd ac Anhrefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus. Rhai o brif bryderon y partïon yw

- Yr oriau agor hwyr gofynnwyd amdano yn cais
- Agosrwydd yr eiddo i cartrefi preswylwyr ac felly y tebygolrwydd o greu niwsans cyhoeddus, e.e. sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel
- Diffyg cyfleusterau parcio.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003 a Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd.